# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**
Dyddiad: Dydd Llun, 25 Tachwedd 2019
Amser: 12.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Fay Bowen**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(12.45 - 13.00)

**(Ar 18 Tachwedd 2019, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o Eitemau 1 a 2 y cyfarfod hwn.)**

## 1 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Tueddiadau o ran gwariant cyhoeddus yng Nghymru rhwng 1999-00 a 2017-18

(13.00 - 13.20)

PAC(5)-30-19 Papur 1 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Tueddiadau o ran Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru rhwng 1999-00 a 2017-18

## 2 Rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned: Briffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

(13.20 - 13.50)

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.50)

## 4 Papur(au) i'w nodi

(13.50)

### 4.1 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (11 Tachwedd 2019)

(Tudalennau 1 - 2)

## 5 Llywodraethu a rheolaeth ariannol mewn cynghorau cymuned: sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(13.55 - 15.00) (Tudalennau 3 - 40)

Papur briffio

PAC(5)-30-19 Papur 2 – Llywodraeth Cymru

Tracey Burke – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Lleol, Llywodraeth Cymru

Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

(15.15)

## 7 Llywodraethu a rheolaeth ariannol mewn cynghorau cymuned a Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(15.15 - 15.30)

## 8 Blaenraglen Waith: Gwanwyn 2020

(15.30 - 16.00) (Tudalennau 41 - 55)

PAC(5)-30-19 Papur 3 – Blaenraglen Waith

PAC(5)-30-19 Papur 4 - Ymchwiliad i effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyfeirnod
Your reference

Ein cyfeirnod
Our reference

Dyddiad
Date
11 Tachwedd 2019

Llinell uniongyrchol
Direct line
03000 256030

Ebost
Email:
jason.thomas@llyw.cymru

Annwyl Gadeirydd

**Stiwdios Pinewood**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn llythyr Andrew Slade dyddiedig 14 Mawrth 2019 mewn perthynas â Stiwdios Pinewood a ffermdy Penpil sydd ar y safle, ac yn ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Roedd y llythyr blaenorol yn egluro sut roedd Cadw wedi ailasesu'r adeilad ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru bellach. Newidiwyd Penpil yn sylweddol yn yr 1980au a'r 1990au, gyda llawer o'r nodweddion gwreiddiol yn cael eu tynnu ohono neu eu niweidio bryd hynny. Yna llosgwyd yr adeilad yn ddifrifol yn yr 2000au cynnar ac mae wedi dirywio'n sylweddol yn sgil hynny. Digwyddodd hyn i gyd cyn i Lywodraeth Cymru brynu'r adeilad yn 2014. Mae'n amlwg bod y gwaith adnewyddu a'r tân wedi bod yn gyfrifol am golli llawer o'r hyn oedd o ddiddordeb hanesyddol. Nid oedd y ffabrig hanesyddol a oedd yn sail i'r penderfyniad gwreiddiol i'w restru gan yr adeilad mwyach.

Felly, dechreuodd Cadw y broses ymgynghori ar gyfer dadrestru'r eiddo ar 8 Mawrth 2019 a dadrestrwyd yr eiddo yn sgil hynny ar 11 Ebrill 2019.

Ers prynu'r eiddo, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn rheoli'r eiddo gan roi sylw priodol i'w ddirywiad yn ystod y deng mlynedd ers y tân, y risgiau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â hyn, y costau sy'n gysylltiedig ag adnewyddu a'r defnydd cyfyngedig o'r adeilad yn y dyfodol. Fel arfer, y cam gweithredu a argymhellir mewn achos fel hyn yw dymchwel yr eiddo. Fodd bynnag, nid dyna a wnaed ar y pryd oherwydd statws rhestredig yr adeilad a'r posibilrwydd y gallai fod angen ei ddefnyddio yn y dyfodol mewn cysylltiad â'r stiwdios cyfagos. Am y rhesymau hyn, gwnaed yr adeilad yn ddiogel a'i fonitro.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding



Plas Carew
Uned 5/7
Cefn Coed
Parc Nantgarw
CF15 7QQ

Mewn arolwg o’r eiddo a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn ogystal â hysbysu swyddogion ynghylch y costau a fyddai’n gysylltiedig ag adnewyddu’r ffermdy, pwysleisiwyd natur ansefydlog rhannau o’r eiddo gyda mynediad y tu mewn iddo’n cael ei ystyried yn beryglus.

Ar ôl dadrestru’r eiddo, ac o ystyried cyngor yr arolwg, adolygodd swyddogion drefniadau rheoli’r eiddo a phenderfynwyd mai’r peth mwyaf priodol i’w wneud fyddai dymchwel yr adeilad, gan gael gwared ar y risgiau iechyd a diogelwch a oedd yn gysylltiedig â’i gadw. Yna dymchwelwyd yr adeilad ym mis Medi 2019.

Yn gywir



Jason Thomas
**Cyfarwyddwr**
**Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

11 Tachwedd 2019

Annwyl Mr Ramsay

**Papur tystiolaeth – Cynghorau Tref a Chymuned**

Mae'n bleser gennyf amgáu papur tystiolaeth cyn i mi fynychu cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Tachwedd.

Yn gywir

Tracey Burke

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

**Papur Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Tachwedd 2019**

## 1. Cyflwyniad

Nod y papur hwn yw ceisio rhoi cefndir a thystiolaeth berthnasol mewn perthynas â safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar y meysydd penodol o ddiddordeb a amlygwyd gan y Pwyllgor, h.y.:

- Adroddiadau Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Tref a Chymuned 2017-18 a Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned 2017-18 Archwilydd Cyffredinol Cymru (y cyhoeddwyd y ddau ohonynt ym mis Ionawr 2019);
- Papur Trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru - Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol' (Chwefror 2019).

## 2. Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Tref a Chymuned a Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned

Mae'r fframwaith deddfwriaethol y mae cynghorau tref a chymuned yn gweithredu oddi mewn iddo yn deillio i raddau helaeth o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Maent yn haen gwbl ddewisol o lywodraeth leol a gall cymunedau benderfynu, drwy ddilyn rhai gweithdrefnau penodol a nodir yn Neddf 1972, p'un a ddylid sefydlu neu ddiddymu cyngor cymuned ai peidio.

Y cynghorau cymuned eu hunain sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut mae cynghorau yn gweithredu e.e. a oes ganddynt reolau sefydlog, a yw cynghorwyr wedi cael hyfforddiant digonol i ymgymryd â'u rôl, a rhwystrau a gwrthbwysau mewnol.

Ym mis Gorffennaf 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref er mwyn ystyried sut y gellir atgyfnerthu cynghorau cymuned a thref er mwyn iddynt allu rhoi'r cymorth gorau posibl i'w cymunedau.

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ddau adroddiad a oedd yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned, sef:

- Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Tref a Chymuned 2017-18;
- Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion o ran trefniadau rheoli ariannol. Ers mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd nifer o adroddiadau o'r fath er budd y cyhoedd.

Ym mis Mai 2019, ysgrifennais at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nodi fy mhryderon o ran canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â safon trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu ac archwilio mewnol ar hyn o bryd. Yn y llythyr hwnnw, a atodir gennyf er mwyn i chi allu cyfeirio ato, nodais ein hymateb manwl i'r tri phrif faes sydd o ddiddordeb y Pwyllgor (Atodiad A):

- Ein hymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o Gynghorau Cymuned a Thref;
- Ein hymateb i'r adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y cyfeirir atynt uchod;
- Ein camau gweithredu er mwyn cefnogi trefniadau llywodraethu, rheoli ariannol ac atebolrwydd yn y sector.

Mae fy llythyr o fis Mai eleni yn rhoi manylion am yr holl feysydd. Mae llawer o'r ymatebion a'r camau gweithredu yn berthnasol i'r tri maes.

Ar ôl i'r Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru gwblhau ei waith, cytunodd Gweinidogion Cymru ag argymhelliad y Panel y dylid cadw cynghorau cymuned ac mai dull gweithredu galluogol oedd y ffordd briodol ymlaen, gan annog a galluogi'r sector i ddatblygu ar gyflymder sy'n briodol iddo yn hytrach na cheisio gorfodi newid. Roedd y pwyslais ar atgyfnerthu cynghorau cymuned a chreu amgylchedd iddynt ehangu eu gweithgareddau lle y gallent, ac y dylent, chwarae fwy o rôl, a hynny'n seiliedig ar anghenion lleol.

Rydym wedi nodi nifer o gamau gweithredu i'w cymryd dros weddill tymor y Cynulliad hwn er mwyn creu'r amgylchedd galluogol hwn. Mae'r tabl yn **Atodiad 2 o'm llythyr** yn cynnwys y camau gweithredu hyn, sydd wedi'u rhannu'n gamau gweithredu i'w cymryd ar unwaith a'r rhai y mae angen eu hystyried ymhellach.

Er bod cyfrifoldeb ar bob cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol ac i ddilyn arferion priodol er mwyn rhoi cyfrif am yr arian cyhoeddus a ymddiriedir iddynt, rydym yn parhau i roi cymorth i gynghorau cymuned a thref, eu cynghorwyr a'u clercod.

Yn unol â'r datganiad cenedlaethol o uchelgais a fynegwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol ar y pryd y llynedd, bu ein pwyslais polisi ar alluogi a helpu'r sector i ddatblygu er mwyn ymgymryd â'r rôl estynedig a ragwelwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet.

Mae'r meysydd lle rydym yn rhoi cymorth yn cynnwys y canlynol:

- Darparu cyllid i gefnogi Un Llais Cymru sy'n cynnig amrywiaeth o fodiwlau hyfforddiant i gynghorwyr, gan gynnwys deall y ddeddfwriaeth berthnasol a threfniadau rheoli ariannol. Mae'r ffi a godir am roi hyfforddiant ychwanegol yn is na ffioedd y farchnad.

- Darparu cynllun bwrsariaeth i gynghorwyr, gan dargedu cynghorau llai â throsiant cyllidebol o £40,000 neu lai, er mwyn eu hannog a'u galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddi hyn. Caiff y cynllun ei hyrwyddo a'i reoli gan Un Llais Cymru.

- Ehangu'r cynllun bwrsariaeth hyfforddiant i glercod sy'n eu galluogi i ymgymryd â chymhwyster sector-benodol - y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA). Cynyddwyd y trothwy i gynghorau sy'n gymwys i gael cymorth eleni o'r cynghorau hynny â throsiant wedi'i gyllidebu o lai na £40k i gynnwys y rhai â throsiant wedi'i gyllidebu o lai na £100k.

- Yn ogystal, rydym wedi dechrau cynnig hyfforddiant ar-lein i gynghorwyr, ac mae modiwlau e-ddysgu rhagarweiniol ar gael am ddim i bob cynghorydd drwy wefan Un Llais Cymru.

- Mae un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn aelod o'r Grŵp Cyswllt Archwilio Cynghorau Lleol, sy'n cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac archwilwyr, yn ogystal â chyrff cynrychioliadol Un Llais Cymru a'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'r Grŵp hwn yn trafod materion cyffredin a gaiff eu nodi drwy'r broses archwilio a sut y gellir helpu cynghorau i ymdrin â'r materion hyn.

Rydym hefyd yn cymryd camau i sicrhau atebolrwydd cymesur i gynghorau cymuned a thref h.y.:

- Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi y bydd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn cynnwys dyletswydd ar gynghorau cymuned a thref i baratoi adroddiad blynyddol. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder o ran sut y mae cynghorau yn ymgysylltu â'u cymunedau.

- Rydym yn cynnal arolwg o'r ffordd y mae cynghorau cymuned a thref yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau digidol eraill i ymgysylltu â'u cymunedau.

- Gofynnodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i swyddogion ystyried opsiynau ar gyfer atgyfnerthu trefniadau llywodraethu yn y sector er mwyn sicrhau y caiff cynghorau cymuned eu cefnogi mewn ffordd broffesiynol a'u

gweithredu mewn ffordd broffesiynol, gan gynnig dull strwythuredig iddynt gael gafael ar gymorth ac arweiniad.

- Yn olaf, rwyf wedi cadarnhau ein bod o blaid cynllun Archwilydd Cyffredinol Cymru i adolygu'r trefniadau archwilio presennol er mwyn penderfynu a ydynt yn parhau'n addas at y diben, gyda'r bwriad o ymgynghori ar ganlyniad ar adolygiad ac unrhyw newidiadau i'r trefniadau archwilio ar ddiwedd 2019. Rwyf ar ddeall y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ganlyniad yr adolygiad hwn maes o law, ac y disgwylir i unrhyw newidiadau i'r trefniadau archwilio yn deillio o'r adolygiad gael eu rhoi ar waith ar gyfer archwiliad 2020-21.

**3. Papur Trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru - Chwe thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol' (Chwefror 2019);**

Ym mis Mai 2019, rhoddais y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar Bapur Trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru, Chwe Thema i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol' a drafodwyd yn flaenorol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mawrth 2019. Mae'r chwe thema fel a ganlyn:

1. Egluro rolau a chyfrifoldebau
2. Gwella'r trefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu
3. Trylwyredd wrth gynllunio gweithgareddau craffu
4. Ymateb i heriau heddiw ac i'r dyfodol mewn perthynas â chymorth craffu
5. Gwerthuso effeithiolrwydd swyddogaethau craffu
6. Goblygiadau'r themâu uchod ar drefniadau llywodraethu cynghorau a phartneriaethau.

Nododd y Papur Trafod y meysydd allweddol lle y cred y gellir gwneud gwelliannau. Gwnaethom gytuno fod y meysydd hyn yn bwysig o ran cynnal gwaith pellach, gan gydnabod gwaith awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth annog datblygiadau yn y maes hwn.

Rôl Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod fframwaith ar waith, o ran deddfwriaeth ac o ran polisi, i hwyluso llywodraeth leol dda, yn hytrach na dibynnu ar swyddogaethau craffu awdurdodau lleol. Mae cyfrifoldeb wedyn ar awdurdodau lleol i weithio o fewn y fframwaith hwnnw ac i sicrhau bod y mesurau lleol priodol ar waith ganddynt i ymgymryd â gweithgareddau craffu pwrpasol a chynhyrchiol.

Rydym yn bwriadu cyflwyno fframwaith perfformiad a llywodraethu newydd drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ddiweddarach y mis hwn. Bwriedir i'r fframwaith newydd hwn ddisodli'r dull gwella presennol sy'n rhan o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac mae'n anelu at gefnogi newidiadau diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol.

Yn y bôn, mae llywodraeth leol yn atebol i'r boblogaeth leol ac mae sicrhau bod dinasyddion lleol yn cael gwybod mwy am y penderfyniadau a wneir gan gynghorau yn allweddol o ran atgyfnerthu trefniadau. Rydym yn gweithio gyda CLlLC i gefnogi hyn drwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r rhai sy'n rhan o'r system.

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyf:

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Mai 2019

Annwyl Mr Ramsay

**Cynghorau Tref a Chymuned**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 9 Ebrill yn gofyn am ymateb gan Lywodraeth Cymru i ganfyddiadau'r Panel Adolygu Annibynnol, a'r ddau adroddiad a luniwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol; a sefydlu pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd, a pha gymorth sy'n cael ei ddarparu yn y maes hwn.

Rwy'n rhannu pryderon yr Archwilydd Cyffredinol, o ran y nifer uchel parhaus o gynghorau cymuned sydd wedi derbyn barn archwilio amodol; ac o ran trefniadau archwilio mewnol mewn cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Yn wir, ysgrifennais at yr Archwilydd Cyffredinol ar 16 Ionawr yn mynegi fy mhryder ynghylch safon y rheolaeth ariannol a'r llywodraethu a amlinellwyd yn ei adroddiadau.

Er bod cynghorau cymuned a thref yn atebol yn annibynnol i'w hetholwyr am eu gweithredoedd yn y pen draw, mae gan Lywodraeth Cymru fuddiant clir mewn cefnogi gwella rheolaeth ariannol a llywodraethu o fewn y sector.

Amlinellaf isod fy ymateb i'r tri maes sydd o ddiddordeb i chi.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1) **Ymateb Llywodraeth Cymru i ganfyddiadau'r Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru**

Roedd Llywodraeth Cymru yn werthfawrogol iawn o'r amser a'r ystyriaeth a roddodd y Panel i'r Adolygiad ac am eu hadroddiad meddylgar ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi dadansoddiad cynhwysfawr o'r sector, gan roi mewnwelediad gwerthfawr i Lywodraeth Cymru a'r rheiny sy'n gweithio yn y sector.

Mae hyn wedi llywio dull polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref, a nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2018 (**Atodiad 1**).

Mae'r pwyslais ar annog a galluogi'r sector i ddatblygu, gan sicrhau elfen o ddewis i gynghorau cymuned a thref er mwyn iddynt gael penderfynu pa mor bell y maent am fynd a pha mor gyflym y maent yn cymryd camau, yn enwedig o ran eu rôl mewn comisiynu a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu datganiad cenedlaethol clir o uchelgais sy'n cydnabod amrywiaeth y sector a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Credwn fod y dull gweithredu yn un rhesymol, cymesur ac ymarferol. Mae'n ymateb i'r galwadau yn adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol am fwy o eglurder o fewn y sector; mae'n creu cyfle i gryfhau cynghorau drwy ddatblygu eu capasiti a'u gallu; ac mae'n rhoi ar waith brosesau i sicrhau mwy o ymatebolrwydd a chyfranogiad.

Rydym wedi nodi nifer o gamau rydym wedi ymrwymo i'w cymryd dros weddill tymor hwn y Cynulliad er mwyn creu'r amgylchedd hwn sy'n galluogi. Mae'r tabl yn **Atodiad 2** yn cynnwys y camau gweithredu hyn, sydd wedi'u rhannu'n "gamau gweithredu uniongyrchol" a chamau gweithredu sydd angen "ystyriaeth bellach".

Mae meysydd ble y gellir cymryd camau uniongyrchol yn gamau ymarferol i raddau helaeth, nad ydynt yn arbennig o gymhleth neu ddadleuol, y gellir eu cymryd heb fod angen adnoddau ychwanegol sylweddol naill ai gan Lywodraeth Cymru neu randdeiliaid. Bydd y camau hyn yn cael eu datblygu i raddau helaeth yn 2019-20. Comisiynwyd rhai ohonynt cyn dechrau blwyddyn ariannol 2019-20 – megis y gwaith i wella mynediad i hyfforddiant ar gyfer yr 8,000 o gynghorwyr cymuned a thref yng Nghymru drwy lunio cyfres o fodiwlau hyfforddiant craidd rhagarweiniol ar-lein.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y meysydd a nodwyd ar gyfer eu hystyried ymhellach yw’r rhai sydd â theilyngdod mewn egwyddor yn ein barn ni, ond mae angen meddwl ymhellach amdanynt. Yn gyffredinol, maent yn faterion sy’n fwy cymhleth ac mae angen mwy o waith cyn y gellir gwneud penderfyniad ynghylch p’un ai, neu sut, i fwrw ymlaen ai peidio. Er enghraifft, p’un ai a fyddai gwahaniaeth cliriach rhwng yr hyn y mae cynghorau cymuned yn gyfrifol amdano a’r hyn y mae prif gynghorau yn gyfrifol amdano yn helpu i egluro rôl y sector. Y bwriad yw archwilio pob un ohonynt cyn diwedd tymor hwn y Cynulliad, gan ymgysylltu â’r sector a rhanddeiliaid eraill wrth i ni weithio drwy bob maes.

Nodaf yn fanylach isod y camau sy’n cael eu cymryd i gefnogi llywodraethu, rheolaeth ariannol ac atebolrwydd yn y sector.

**2) Ymateb Llywodraeth Cymru i ddau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Reoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Tref a Chymuned 2017-18; a Threfniadau Archwilio Mewnol mewn Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.**

Fel y soniais uchod, ysgrifennais at yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Ionawr i nodi cyhoeddiad yr asesiad diweddaraf o reolaeth ariannol a llywodraethu mewn cynghorau tref a chymuned ledled Cymru, ac i fynegi pryder o weld bod y safon bresennol o reolaeth ariannol a llywodraethu yn parhau i fod yn siomedig mewn gormod o gynghorau cymuned a thref.

Cyfrifoldeb pob cyngor yw cyflawni ei ddyletswyddau statudol a dilyn arferion priodol i gyfrif am yr arian cyhoeddus a ymddiriedir iddynt. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob cyngor fod â threfniadau rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol cadarn ar waith ac i gydymffurfio â’u gofynion statudol. Mae trefniadau archwilio mewnol cadarn yn rhan allweddol o hyn.

Archwiliad 2017-18 yw pwynt hanner ffordd y trefniadau presennol, felly, mae’n briodol ystyried y cynnydd a wnaed gan y sector ac ystyried p’un ai a yw’r trefniadau archwilio presennol yn addas at y diben.

Rwyf wedi cadarnhau cefnogaeth i gynllun yr Archwilydd Cyffredinol i adolygu’r trefniadau archwilio presennol er mwyn penderfynu a ydynt yn parhau i fod yn addas at y diben, gyda bwriad i ymgynghori ar ganlyniad yr adolygiad ac unrhyw newidiadau i’r trefniadau archwilio ar ddiwedd 2019. Deallaf y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ein diweddaru ar ganlyniad yr adolygiad hwn maes o law, a disgwylir i unrhyw newidiadau i’r trefniadau archwilio sy’n deillio o’r adolygiad gael eu gweithredu ar gyfer archwiliad 2020-21.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## 3) Camau sy’n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi llywodraethu, rheolaeth ariannol ac atebolrwydd yn y sector

*Cefnogi Llywodraethu*

Mae’r prif gyfrifoldeb dros sicrhau llywodraethu cadarn yn gorwedd gyda’r cynghorau cymuned eu hunain. Mae ein cefnogaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod cynghorwyr, a’r staff sy’n eu cefnogi, yn gallu chwarae eu rôl yn effeithiol gyda’r nod o atal problemau llywodraethu gwael rhag codi.

Mae Un Llais Cymru, a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru fel corff cynrychioliadol y sector, yn darparu ystod o fodiwlau hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr, gan gynnwys modiwlau ar, er enghraifft, ‘Cyllid Llywodraeth Leol’, ar lefel ragarweiniol a lefelau uwch; ‘Dealltwriaeth o’r Gyfraith’; ac ‘Y Cynghorydd’.

Rydym yn darparu cynllun bwrserïau i gynghorwyr, gan dargedu cynghorau llai o faint sydd â throsiant cyllidebol o £40,000 neu lai, i’w hannog a’u galluogi i elwa ar y cyfleoedd hyfforddiant hyn. Caiff y cynllun ei hyrwyddo a’i reoli gan Un Llais Cymru.

Yn ogystal, rydym yn archwilio potensial hyfforddiant ar-lein ar gyfer cynghorwyr. Mae modiwlau e-ddysgu rhagarweiniol wedi’u paratoi ar gyfer hyfforddiant cynghorwyr yn y meysydd canlynol:

- Cyfnod sefydlu
- Cod ymddygiad
- Bod yn gyflogwr
- Amrywiaeth a chynhwysiant
- Iechyd a Diogelwch
- Cyflwyniad i gyllid
- Cyflwyniad i ddealltwriaeth o’r gyfraith

Bydd y modiwlau e-ddysgu ar gael am ddim drwy wefan Un Llais Cymru i bob cynghorydd, p’un ai a yw eu cyngor yn aelod o Un Llais Cymru ai peidio. Bydd y modiwlau yn eistedd ochr yn ochr â mathau eraill o hyfforddiant a bydd y cynnwys yn ategu’r mathau eraill hyn yn hytrach na’u dyblygu. Disgwylir iddynt fod ar gael o fis Mehefin 2019.

Yn ystod tymor hwn y Cynulliad, rydym hefyd wedi ymrwymo i ystyried p’un ai a ddylid gwneud hyfforddiant craidd i gynghorwyr yn orfodol ai peidio a sut y gellid gwneud hynny.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cytunwn â'r Panel Adolygu Annibynnol fod angen i gynghorau cymuned a thref gael eu cefnogi'n broffesiynol gan staff cymwys ac annibynnol. Mae rôl y clerc yn allweddol o ran darparu cyngor i gynghorau, ac felly, mae'n allweddol o ran ysgogi gwelliannau mewn trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol ac atebolrwydd. Dylai cefnogi cynghorau i gael mynediad i hyfforddiant priodol ar gyfer clercod wella gallu cyngor i reoli ei hun yn dda.

I gydnabod hyn, rydym wedi ymrwymo i barhau i ddarparu, ac i ehangu, y cynllun bwrseriäau hyfforddiant ar gyfer clercod sy'n eu galluogi i ymgymryd â chymhwyster penodol i sector y Dystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol (CiLCA). Mae'r trothwy ar gyfer cynghorau sy'n gymwys i gael cymorth wedi'i gynyddu eleni, o'r cynghorau hynny sydd â throsiant cyllidebol o lai na £40k i gynnwys y rheini sydd â throsiant cyllidebol o lai na £100k, gan gydnabod y gallai cynghorau canolig eu maint fod mewn sefyllfa well i fanteisio ar y cynnig o fwrseriäau gan eu bod yn debygol o ddarparu ystod ehangach o wasanaethau ar gyfer y gymuned; gyda chlercod yn gweithio mwy o oriau na'r cynghorau bach iawn.

Hefyd, rydym yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd cael clerc sydd â chymwysterau addas – er enghraifft, bydd cael clerc cymwys yn cael ei gynnig ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) fel un o'r tri maen prawf i gyngor allu gwneud ei hun yn gymwys i arfer Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Mae'n debygol y bydd CiLCA yn cael ei ragnodi fel y cymhwyster perthnasol ar gyfer "clerc cymwys" ar gyfer Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, er y byddai hyn yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y rheoliadau.

Byddwn yn ystyried p'un ai a ddylai cael clerc cymwys fod yn rhywbeth y dylid ei symud o gael ei annog i fod yn ofynnol. Dyma un o'r meysydd y byddwn yn ei archwilio ymhellach yn ystod tymor hwn y Cynulliad.

Hefyd, rydym wedi ymrwymo i archwilio ffyrdd eraill o adeiladu capasiti a gallu clercod i gefnogi'r sector. Mae hyn yn cynnwys ystyried sefydlu "rhwydwaith" o glercod cynghorau cymuned yng Nghymru; ac ystyried pa mor ddymunol, a phosibl, yw newid y ffordd y mae clercod yn cael eu cyflogi (gan edrych yn benodol ar gynghorau sydd angen clerc rhan-amser yn unig).

Cytunwn â'r Pwyllgor fod darparu cymorth a chyngor priodol yn allweddol i wella llywodraethu, rheolaeth ariannol ac atebolrwydd o fewn y sector. Yn ystod tymor hwn y Cynulliad, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i opsiynau ar gyfer darparu mynediad i gyngor a chefnogaeth arbenigol, ochr yn ochr â datblygu fframwaith cymorth ac ymyrraeth priodol ar gyfer methiant o ran gwasanaeth neu fethiant corfforaethol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Gwella rheolaeth ariannol*

Mae'r gyfundrefn archwilio ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn fater i'r Archwilydd Cyffredinol, ond mae gan Lywodraeth Cymru fuddiant clir mewn cefnogi gwella rheolaeth ariannol y sector.

Mae un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn aelod o'r Grŵp Cyswllt Archwilio Cynghorau Lleol, sy'n cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr, yn ogystal â'r cyrff cynrychioliadol Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'r Grŵp hwn yn trafod materion cyffredin a nodwyd drwy'r broses archwilio a'r ffyrdd y gellir cefnogi cynghorau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Hefyd, rydym yn rhan o Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Cenedlaethol gyda'r cyrff cynrychioliadol, sy'n nodi a mynd i'r afael ar y cyd â meysydd lle mae angen cymorth o ran hyfforddiant a datblygiad.

Rwy'n cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud ac rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar ba gymorth pellach y gellid ei ddarparu i gynghorau cymuned llai o faint i'w helpu i gyflawni gofynion archwilio.

*Gwella Atebolrwydd y Sector*

Mae cynghorau cymuned a thref yn codi ac yn gwario arian cyhoeddus. Mae'n hanfodol eu bod yn atebol am eu gweithredoedd. Y prif gyfrwng ar gyfer hyn yw atebolrwydd democrataidd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith yn ystod tymor hwn y Cynulliad i annog cyfranogiad yn yr haen fwyaf lleol hon o ddemocratiaeth, a chynyddu ei hamrywiaeth.

Mae angen sylweddol i wella gwelededd cynghorau cymuned a thref, a chynyddu eu hymgysylltiad â'u cymunedau, fel bod eu gwaith yn dryloyw.

Y bwriad yw gosod dyletswydd ar bob cyngor cymuned a thref i baratoi adroddiad blynyddol drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau. Bydd hyn yn cynnwys disgwyliad i gynghorau nodi sut maent wedi ymgysylltu â'u cymunedau, a sut maent yn bwriadu gwneud hynny.

Hefyd, rydym wedi dechrau gweithio i feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae cynghorau cymuned a thref yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol a mecanweithiau digidol eraill i ymgysylltu â'u cymunedau am waith y cyngor, a rhannu enghreifftiau o arfer da â'r sector.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi ymrwymo i roi ystyriaeth bellach i gyflwyno dyletswydd ar gynghorau cymuned a thref i gynnal o leiaf un cyfarfod cyhoeddus y flwyddyn. Mae'r gofyniad hwn yn ei le yn Lloegr, a rhan o'n hystyriaeth fydd asesu effaith y ddyletswydd hon ar wella ymgysylltiad ac atebolrwydd yn lleol.

Rydym wedi sefydlu cysylltiadau â'r ddau gorff sy'n darparu mecanweithiau sicrwydd allanol ar gyfer y sector. Rydym wedi sefydlu perthynas waith â Swyddfa Archwilio Cymru, ac rydym yn ymgysylltu'n weithredol â'r swyddfa yn eu hadolygiad o'r gyfundrefn archwilio. Yn ogystal, rydym wedi sefydlu cysylltiadau â swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae gan yr Ombwdsmon rôl annibynnol ac mae'n ystyried cwynion am gamweinyddu gan gynghorau ac achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad. Yn ddiweddar, buom yn hwyluso ymgysylltiad rhyngddynt a chyrff cynrychioliadol y sector i drafod sut yr ymdrinnir â materion yn ymwneud â'r cod ymddygiad.

Mae'n bwysig bod y camau hyn yn cael eu gweithredu mewn ffordd gydunol, fel rhan o ymagwedd gydgysylltiedig, yn hytrach nag ar wahân. Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gofyn i swyddogion ddod â'r gwaith hwn ynghyd fel "fframwaith llywodraethu" sy'n sicrhau bod cynghorau cymuned yn cael cefnogaeth broffesiynol, yn cael eu rhedeg yn broffesiynol, gyda dull strwythuredig o gefnogaeth a chyfarwyddyd a gyda mecanweithiau ar gyfer ymyrryd yn ffurfiol pe bai methiant o ran gwasanaeth neu fethiant corfforaethol.

Bydd y fframwaith hwn yn ystyried y camau a amlinellir uchod yn ogystal ag edrych ar ffyrdd eraill o gryfhau trefniadau a chefnogi llywodraethu da.

Caiff cyngor cychwynnol ar y fframwaith ei ystyried gan y Gweinidog dros yr haf, cyn ymgysylltu'n ehangach.

Byddwn yn falch o ddarparu rhagor o wybodaeth neu eglurder ar yr uchod, os byddai hyn o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus/ Director General, Education Public Services
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

**Datganiad Ysgrifenedig: Rôl y Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn y Dyfodol (Cyhoeddwyd 30 Tachwedd 2018)**

Cafodd Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017, i ystyried sut y gellir cryfhau cynghorau cymuned a thref gan sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i gefnogi eu cymunedau. Panel Adolygu trawsbleidiol ac annibynnol oedd hwn a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Blaid Lafur, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig, a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac a oedd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Gwenda Thomas a Rhodri Glyn Thomas.

Treuliodd y Panel oddeutu blwyddyn yn casglu tystiolaeth ac yn gwrando ar farn y gwahanol randdeiliaid cyn cyflwyno ei adroddiad terfynol imi ar 3 Hydref. Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Panel am yr amser y maent wedi ei roi a'u hymroddiad wrth gynnal yr adolygiad hwn, ac am baratoi eu hadroddiad ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Mae'r adroddiad wedi darparu sail gadarn ar gyfer symud ymlaen, a llunio'r polisi gweithredu yr wyf yn ei ddisgrifio heddiw.

Rwyf wedi darllen ac ystyried adroddiad y Panel, ac rwy'n credu bod ei ddadansoddiad o'r sector, a'r cyfleoedd a'r heriau a ddaw iddo yn y dyfodol, yn un trylwyr. Mae'n gwneud achos dros gadw'r sector cynghorau cymuned a thref, a chynyddu'n sylweddol y cyfraniad y mae'r cynghorau hyn yn ei wneud.

Rwy'n cytuno â'r cyfeiriad a osodir yn yr adroddiad, sy'n galw am ehangu rôl y sector. Ar ôl i'r Cabinet ei drafod a'i ystyried yn ofalus, rwy'n credu mai dull gweithredu sy'n galluogi cynghorau yw'r ffordd orau i ehangu eu rôl, ac y bydd yn bosibl cryfhau cynghorau cymuned a'u hannog i newid drwy greu amgylchedd lle y gall cynghorau cymuned a thref ehangu eu gweithgareddau lle bo hynny'n bosibl, yn seiliedig ar anghenion lleol.

Dylid rhoi pwyslais ar annog a galluogi'r sector i ddatblygu; gan sicrhau elfen o ddewis i gynghorau cymuned a thref er mwyn iddynt gael penderfynu pa mor gyflym y maent yn cymryd camau a pha mor bell y maent am fynd, yn enwedig o ran eu rôl mewn comisiynu a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu datganiad cenedlaethol clir o uchelgais sy'n cydnabod amrywiaeth y sector a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae camau gweithredu allweddol y gallwn eu cymryd nawr i gryfhau cynghorau cymuned a'u cefnogi wrth iddynt gyflwyno'r newidiadau y maent yn awyddus i'w gwneud. Lle bo cytundeb cyffredinol a ninnau'n adeiladu ar yr hyn sy'n digwydd

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eisoes, nid oes angen oedi. Er enghraifft, bydd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a fydd yn cael ei gyflwyno gennyf y flwyddyn nesaf, yn darparu mwy o bwerau a hyblygrwydd ar gyfer cynghorau cymuned, drwy alluogi'r rhai sy'n bodloni amodau penodol i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.

Fy mwriad yw sicrhau bod mwy o atebolrwydd a thryloywder yn y sector drwy ei annog i ddefnyddio adnoddau digidol yn fwy effeithiol wrth ymgysylltu â chymunedau. Drwy Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), byddaf yn sicrhau bod gan bobl yr hawl i gyflwyno sylwadau am unrhyw fater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod cyngor. Hefyd, drwy ddeddfwriaeth, byddaf yn ei wneud yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref baratoi adroddiad blynyddol. Rwy'n credu y bydd hyn yn sicrhau bod eu gweithgareddau'n fwy gweladwy, yn ogystal â gwella atebolrwydd lleol a sicrhau bod y cynghorau'n effeithiol yn y modd y maent yn ymgysylltu â chymunedau lleol, er mwyn ennyn mwy o ddiddordeb yng ngwaith ei chyngor o du'r gymuned.

Bydd cryfhau gallu'r sector yn parhau'n flaenoriaeth, a byddaf yn cefnogi'r gwaith hwn drwy barhau i sicrhau bod bwrseriau ar gael i alluogi'r cynghorwyr a'u staff i ymgymryd â hyfforddiant. Hefyd, bydd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn rhoi rhwymedigaeth ar gynghorau cymuned i ystyried eu hanghenion hyfforddi a chynllunio, ac i adolygu eu cynlluniau'n rheolaidd.

Mae rhai o'r materion a nodwyd gan y Panel Adolygu yn haeddu cael eu hystyried ymhellach, a dylid cynnal ymgynghoriad arnynt er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o fwrw ymlaen â nhw. Er enghraifft, a fyddai'n helpu i egluro rolau o fewn y sector pe baem yn ystyried a oes angen gwahaniaethu'n fwy eglur rhwng yr hyn y mae cynghorau cymuned yn gyfrifol amdano a'r hyn y mae'r prif gynghorau'n gyfrifol amdano; ac a ddylid rhoi trefniadau ymyrryd a chefnogi cymesur ychwanegol ar waith?

Rwyf hefyd yn awyddus i hwyluso sgwrs rhwng cynghorau cymuned a thref ac awdurdodau lleol ynghylch sut y mae gwasanaethau'n cael eu hariannu a'u cynnal – gan gydnabod bod hynny'n un o'r pethau allweddol sy'n penderfynu gallu cynghorau cymuned i chwarae rôl ehangach.

Rwy'n edrych ymlaen at ymchwilio i'r syniadau mwy pellgyrhaeddol, rhai ohonynt hefyd yn fwy dadleuol, gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill.

Rwy'n gweld hyn fel dechrau sgwrs gyda chynghorau cymuned, prif gynghorau ac eraill sy'n gweithio gyda chymunedau i drafod sut y gallwn ehangu rôl cynghorau cymuned.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth osod polisi Llywodraeth Cymru, dylid cofio hefyd bod casgliadau'r Panel Adolygu yn cael eu cyflwyno i'r Llywodraeth, er mwyn inni a'r holl bartneriaid mewn llywodraeth leol, gan gynnwys cynghorau cymuned, prif gynghorau a'r cyrff sy'n eu cynrychioli, eu hystyried ac ymateb iddynt; yn unol â chyfrifoldebau'r rôl y mae pob un ohonom yn ei chwarae yn yr ymgyrch i wella cymunedau lleol.

Rwyf o'r farn bod y dull gweithredu yr wyf wedi ei amlinellu yn un rhesymol, cymesur, ac ymarferol, a'i fod yn darparu man cychwyn ar gyfer cynnal sgwrs â'r sector ei hun a'r rheini sy'n cydweithio ynddo.  O weithredu fel hyn, gallwn ymateb i'r galwadau yn yr adroddiad am fwy o eglurder o fewn y sector; creu cyfle i gryfhau cynghorau drwy ddatblygu eu capasiti a'u gallu; a rhoi ar waith brosesau i sicrhau mwy o ymatebolrwydd a chyfranogiad.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 2**

# Cynghorau Cymuned a Thref – Ardaloedd Gweithredu Llywodraeth Cymru

| Thema | Gweithredu ar Unwaith | Ystyriaeth Bellach |
|---|---|---|
| **Egluro rôl y sector** | • Ymgymryd ag ymgyrch i:<br>○ gadarnhau rôl bwysig y sector;<br>○ codi ymwybyddiaeth o waith cynghorau cymuned (gan gynnwys ardaloedd lle nad oes cynghorau cymuned);<br>• Annog cynghorau cymuned i fyfyrio ar yr hyn sy'n ofynnol yn lleol, o ran mathau o wasanaethau y gallent eu darparu.<br>• Codi ymwybyddiaeth o fanteision sefydlu cynghorau cymuned a thref newydd. | • Ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o fanteision sefydlu cynghorau cymuned newydd, archwilio modelau eraill a all roi ffocws ar gyfer cymunedau mewn ardaloedd trefol.<br>• Ystyried ymhellach pa mor ddefnyddiol yw gwahaniaeth 'gwasanaethau yn y lle', yr awydd am newid a'r cyflymder y gellid ei gynnal.<br>• Ystyried ymgynghori ar rinweddau cadw cynghorwyr 'deuol'. |
| **Cynyddu democratiaeth a chyfranogiad** | • Defnyddio'r pwerau presennol i sicrhau bod Arolygiadau Cymunedol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.<br>• Sefydlu gwell dealltwriaeth o ddefnydd cyfryngau cymdeithasol gan gynghorau cymuned a thref i ymgysylltu â'u cymunedau; a hwyluso rhannu arferion da.<br>• Ymgymryd ag ymgyrch i annog mwy o bobl i sefyll mewn etholiadau. | • Ystyried ac efallai ymgynghori os oes angen arolygiad cynhwysfawr o ffiniau cynghorau cymuned, gan nodi byddai angen dull deddfol gwahanol i gyflawni camau yn y dyfodol.<br>• Ystyried a ddylid sicrhau bod etholiadau yn cael eu cynnal waeth a yw seddau yn cael eu herio ai peidio – cydbwyso'r broses ddemocrataidd gyda chost.<br>• Archwilio beth ellir ei wneud i hyrwyddo mwy o amrywiaeth ymhlith cynghorwyr.<br>• Gadael i'r oedran pleidleisio 16 oed gael ei ymgorffori (os yw'n mynd ymlaen) cyn ystyried a ddylid gostwng yr oedran lleiaf i sefyll fel ymgeisydd cyngor cymuned i 16 oed.<br>• Ystyried sut yr effeithiwyd ar ymgysylltiad lleol a chyfranogiad y cyhoedd yn Lloegr yn dilyn cyflwyno'r ddyletswydd ar Gynghorau Plwyf i gynnal o leiaf un cyfarfod cyhoeddus y flwyddyn. |
| **Capasiti** | • Rhoi mynediad i'r pŵer cymhwysedd cyffredinol (GPoC) i gynghorau cymuned | • Archwilio sut y gellir annog cynghorau cymuned i ystyried symud i / |



BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | | |
|---|---|---|
| **adeiladu** | cymwys (trwy’r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau).<br>• Galw ar gynghorau cymuned i baratoi ar gyfer cyflwyno GPoC trwy weithio tuag at fodloni’r tri main prawf cymhwyster.<br>• Cefnogi sefydlu trefniadau darparu ar y cyd.<br>• Rhoi arweiniad, a rhannu arferion da, ar wahanol fodelau darparu.<br>• Codi ymwybyddiaeth o’r ffynonellau cyllid presennol. | ehangu darpariaeth gwasanaeth.<br>• Archwilio ehangu mynediad i ffynonellau cyllid newydd ar gyfer cynghorau cymuned a thref, er enghraifft cymhwyster ar gyfer grantiau a (trwy’r pŵer cymhwysedd cyffredinol) y pŵer i fasnachu.<br>• Hwyluso sgwrs o fewn llywodraeth leol ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu hariannu a’u cynnal.<br>• Archwilio rhannu swyddogaethau ôl-swyddfa. |
| **Adeiladu gallu** | • Nodi hyfforddiant craidd i gynghorwyr ac ystyried ymarferoldeb cyflwyno pecyn o hyfforddiant craidd.<br>• Parhau i ddarparu cynllun bwrsari hyfforddiant i gynghorwyr a chlercod.<br>• Annog cynnydd yn nifer clercod cymwys –fel amod ar gyfer ymarfer GPoC, a thrwy gefnogaeth i ymgymryd â hyfforddiant. | • Archwilio sefydlu “rhwydwaith” o glercod cynghorau cymuned yng Nghymru.<br>• Ystyried pa mor ddymunol, a phosibl, yw symud tuag at benodi clercod o restr genedlaethol (gan gynnwys goblygiadau gweithlu).<br>• Ystyried opsiynau ar gyfer darparu cyngor a chymorth arbenigol i’r sector, yng nghyd-destun y gwaith ehangach sy’n cefnogi gwelliant mewn llywodraeth leol.<br>• Ystyried a ddylai hyfforddiant craidd i gynghorwyr gael ei wneud yn orfodol, a sut.<br>• Archwilio gyda SAC pa gefnogaeth arall y gellid ei darparu i gynghorau cymuned llai i’w helpu i gyflawni gofynion archwilio. |
| **Gwella perthynas** | • Hwyluso gwaith i gryfhau perthnasoedd allweddol rhwng cynghorau cymuned a phrif gynghorau.<br>• Ychwanegu cynrychiolydd o gynghorau tref a chymuned yn yr ardal i’r rhestr o ‘gyfranogwyr gwadd’ ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | • Archwilio beth arall y gellir ei wneud i hwyluso adeiladu perthynas rhwng y ddwy haen o lywodraeth leol ac ystyried a oes angen gwneud strwythurau gorfodol.<br>• Archwilio cefnogaeth ar gyfer perthnasoedd cynghorwyr a gweithwyr, pan fydd pethau’n mynd o chwith.<br>• Ystyried sut y gellir cryfhau’r Cod ymddygiad a gweithdrefnau cwyno i fynd i’r afael ag ymddygiad gwael gan gynghorwyr. |
| **Gwella** | • Sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. | • Ystyried yr achos dros ddeddfu i ymestyn yr ‘egwyddor datblygu |



BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | | |
|---|---|---|
| **atebolrwydd** | • Parhau i annog cynghorau cymuned i ddilyn cylch o "ymgysylltu, cynllunio, ymgymryd ac adrodd".<br>• Archwilio sut y defnyddir mecanweithiau digidol i ymgysylltu, cwrdd a rhannu gwybodaeth, a sut gall y sector eu defnyddio'n fwy helaeth. | cynaliadwy' i gynghorau cymuned a thref.<br>• Ystyried yr achos dros ddatblygu safonau ac egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br>• Profi'r argymhelliad na ddylai cynghorwyr gael eu cyfethol am fwy nag un tymor yn olynol.<br>• Archwilio cyhoeddi gwybodaeth am gynlluniau cyngor cymuned am y flwyddyn gyda'r hysbysiadau presept.<br>• Ystyried a ddylid deddfu ar gyfer trefniadau cymorth ac ymyrraeth briodol. |



BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 3**

Mae modiwlau hyfforddiant Un Llais Cymru ar gyfer cynghorwyr yn cynnwys:

- Y Cyngor
- Y Cynghorydd
- Y Cyngor fel Cyflogwr
- Dealltwriaeth o’r Gyfraith
- Cyfarfodydd y Cyngor
- Cyllid Llywodraeth Leol
- Iechyd a Diogelwch
- Cyflwyniad i Ymgysylltiad Cymunedol
- Cod Ymddygiad
- Sgiliau Cadeirio
- Cynllunio Cymunedol ar Argyfwng
- Cynllunio Cymunedol
- Ymgysylltiad Cymunedol Rhan II
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Rheoli Gwybodaeth
- Defnyddio TG, Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol
- Gwneud Ceisiadau Grant Effeithiol
- Rheoli eich staff
- Datganoli Gwasanaethau
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2016 / Cynaliadwyedd
- Cyllid Llywodraeth Leol (Estynedig)

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon